

Gwrandawriad cyn penodi - Cadeirydd y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol

Hydref 2021

1. Cyflwyniad

1. Ar 30 Medi 2021, cynhaliodd y Pwyllgor wrandawriad cyn penodi gyda Dr David Clubb, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer swydd Cadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Mae trawsgrifiad o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Pwyllgor.
2. Mae llythyr gan y Dirprwy Weinidog mewn perthynas â'r gwrandawriad cyn penodi wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd am sicrhau bod y Pwyllgor wedi cael cyfle i gynnal y gwrandawriad hwn..

Cefndir

3. Sefydlwyd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn 2018 fel corff anstatudol i gynghori a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ar anghenion seilwaith economaidd ac amgylcheddol Cymru - datganoledig a heb fod yn ddatganoledig - dros 5 i 30 mlynedd gan gynnwys ynni, trafniadaeth, dŵr a charthffosiaeth, draenio, gwastraff, cyfathrebu digidol, a llifogydd/erydiad arfordirol. Mae'n ofynnol iddo ddarparu:

- adroddiad blynyddol;
- adroddiad ar 'gyflwr y genedl' bob tair blynedd sy'n cynnig barn ar gyflwr presennol y seilwaith economaidd ac amgylcheddol yng Nghymru ac yn gwneud argymhellion; ac
- adroddiadau achlysurol ar faterion seilwaith penodol fel y gwêl yn briodol.

4. Mae'r llythyr cylch gwaith a'r cylch gorchwyl presennol ar gyfer Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.



2. Y broses recriwtio

5. Dywedodd nodyn (gweler Atodiad B) a ddarparwyd i'r Pwyllgor am y broses recriwtio fod y Dirprwy Weinidog wedi cyfarfod â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2021 ac wedi ystyried barn y Comisiwn presennol a ymrwymodd i weithredu ar fireinio ffocws Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a symud ymlaen ar benodiadau i'r comisiwn.
6. Yn ei lythyr at y Pwyllgor, nododd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd mai Dr David Clubb oedd yr ymgeisydd yr oedd yn ei ffafrio ar gyfer rôl Cadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Dywedodd ei fod yn bwriadu penodi Dr Clubb am dair blynedd, "wedi derbyn adroddiad craffu boddhaol".
7. Mae hwn yn benodiad uniongyrchol gan y Dirprwy Weinidog ac ni fu proses ymgeisio agored. Yn ei lythyr, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y Comisiwn wedi "colli rhywfaint o fomentwm dros y flwyddyn ddiwethaf", a gallai ymgyrch recriwtio hir "waethygu yr ansicrwydd" ynghylch diben y Comisiwn.
8. Dywedodd y nodyn (gweler Atodiad B) a ddarparwyd i'r Pwyllgor gan Lywodraeth Cymru y nododd ymgyrch recriwtio flaenorol i benodi cadeirydd parhaol, a gynhaliwyd yn hydref 2019, nifer o ymgeiswyr y gellir eu penodi.

Ein barn ni

Credwn y dylai rolau fel hyn fod yn destun proses recriwtio agored, oni bai bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu na allant wneud hynny. Bydd hyn yn sicrhau bod yr ymgeiswyr gorau posibl o amrywiaeth o gefndiroedd yn gallu ymgeisio.

Nodwn fod "nifer" o ymgeiswyr y gellir eu penodi wedi'u nodi o ganlyniad i ymarfer recriwtio 2019. Nid yw'n glir a oedd Dr Clubb yn un o'r ymgeiswyr hynny. Os na, nid yw'n eglur pam na roddwyd cyfle i'r ymgeiswyr hynny wneud cais y tro hwn.

Nodwn fod y Dirprwy Weinidog wedi ceisio symud penodiad Cadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ymlaen yn gyflym. Dywedodd Dr Clubb wrthym ei fod eisoes wedi dechrau ar ei waith. Nid yw hyn yn ddymunol gan y byddai'r Pwyllgor am osgoi sefyllfa lle gellid cwestiynu gonestrwydd y broses cyn penodi.

Addasrwydd y Cadeirydd dynodedig

9. Disgrifiodd proffil (Atodiad C) a gyflwynwyd i'r Pwyllgor cyn y gwrandawriad Dr Clubb fel:

"an expert in energy policy, public affairs and digital communication, having worked in the energy and environment sectors for nearly two decades. He is a Founding Partner at Afallen LLP, which supports organisations and businesses across Wales in delivery using Future Generations frameworks. He was previously Head of Digital at RenewableUK and Director at RenewableUK Cymru."

10. Yn ystod y gwrandawriad cyn penodi, eglurodd Dr Clubb ei fod wedi gweithio yn y sector adnewyddadwy am 20 mlynedd yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn Sbaen, Cymru, Lloegr a Denmarc. Dywedodd fod ganddo ddealltwriaeth dda o'r sector ynni a'i fod wedi rheoli prosiectau mawr. Mae hefyd wedi bod yn gadeirydd bwrdd ac yn aelod o sawl bwrdd.

Gwrthdaro posibl o ran buddiannau posibl

11. Chwaraeodd Ripple Energy ran yn natblygiad fferm wynt Graig Fatha, sef fferm wynt wedi'i chynllunio dan berchnogaeth gymunedol, a dderbyniodd £1.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021. Mewn ymateb i gwestiwn mewn perthynas â'i rôl fel Cyfarwyddwr sefydlu Ripple Energy, dywedodd Dr Clubb wrth y Pwyllgor y byddai'n camu i lawr yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol ar 12 Hydref 2021. Aeth Dr Clubb ymlaen i egluro:

"Ripple Energy is a company that was set up to develop co-operative windfarms to make electricity available cheaper for the users and to help promote renewable energy. Their executive team is the one that carries out all of the work on the development and the financing. I had no influence on either side—either Ripple or on the Welsh Government side."

12. Mae Dr Clubb hefyd yn aelod o Fwrdd Menywod mewn STEM Llywodraeth Cymru a gofynnwyd a allai hyn achosi unrhyw anawsterau iddo. Ymatebodd ei fod wedi ystyried gadael y Bwrdd, ond daeth i'r casgliad y byddai ei gyfranogiad yn y Bwrdd yn helpu i'w ddwyn i gyfrif am ddull y Comisiwn. Eglurodd fel a ganlyn:

"I think my involvement in that board, hopefully, is going to keep me straight, when I'm operating through the commission, and the reason that I want to keep an involvement is that clearly there's a relationship between STEM and infrastructure. So, hopefully, there's a two-way benefit there."

13. Mewn perthynas ag unrhyw wrthdaro posibl arall o ran buddiannau, dywedodd Dr Clubb fod Afallen LLP yn gweithio gyda phrosiectau ynni ac, mewn egwyddor, seilwaith hefyd. Dywedodd eu bod wedi penderfynu, fel cwmni, nad yw am weithio ar brosiectau sy'n cynnwys

ynni neu seilwaith dros y tair blynedd nesaf, tra'i fod yn gadeirydd y Comisiwn. Aeth ymlaen i egluro'r canlynol:

"Afallen is a partner in projects that are trying to develop wind energy at sea, and, because of this, I'm not going to work for Hiraeth Energy on anything that's related to stakeholder engagement. So, I can't see any information through Afallen about renewable energy or infrastructure, and I'm not going to lobby or have a relationship with the stakeholders of Hiraeth either."

14. Dywedodd Dr Clubb wrth y Pwyllgor ei fod wedi trafod y trefniant arfaethedig hwn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, a'u bod yn fodlon bwrw ymlaen ar y sail hon. Ychwanegodd Dr Clubb os bydd unrhyw beth yn newid o ran ei waith, y bydd yn mynd yn ôl at y Llywodraeth yn syth ac yn egluro beth mae am ei wneud i sicrhau bod llinell amlwg rhwng gwaith y Comisiwn a gwaith preifat.

15. O ran tryloywder, cadarnhaodd Dr Clubb y byddai eisiau cynnwys ei fanylion yn y gofrestr fuddiannau cyn gynted â phosibl, ac mae'r un peth yn wir ar gyfer unrhyw gomisiynwyr newydd. Nid yw'n credu y dylid cael unrhyw oedi, gan ei bod yn broses syml.

Ein barn ni

Yn seiliedig ar ein gwrandawriad cyn penodi, rydym yn fodlon bod Dr Clubb yn dangos dealltwriaeth o egwyddorion, nodau ac amcanion economaidd Llywodraeth Cymru, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae ganddo ddealltwriaeth o seilwaith Cymru a'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau y bydd y Comisiwn yn gweithredu o'u mewn. Fodd bynnag, dylid nodi, am nad oes unrhyw ddogfennaeth fel disgrifiad swydd, nid yw'n bosibl gwneud sylwadau manwl ar y graddau y mae Dr Clubb yn bodloni'r meini prawf i gyflawni'r rôl.

Rydym yn nodi sawl maes posibl ar gyfer gwrthdaro buddiannau sy'n deillio o benodiad Dr Clubb ac rydym yn falch ei fod wedi rhoi ymrwymadau ar gofnod y rhoddir sylw iddynt.

Uchelgeisiau'r Cadeirydd dynodedig ar gyfer y Comisiwn

Gweithrediad y Comisiwn

16. Dywedodd Dr Clubb ei fod yn bwriadu i'r Comisiwn newydd gael llai o aelodau ac y byddai'n cynnwys dirprwy gadeirydd. Dywedodd ei fod yn bwriadu y byddai'r Comisiwn yn ddim llai na 50 y cant yn fenywod, ac y dylai, os yw'n bosibl, adlewyrchu amrywiaeth a demograffeg Cymru gyfan.

17. Pan ofynnwyd iddo sut y byddai'n sicrhau ethos tîm cryf a chydweithio rhwng comisiynwyr, ymatebodd Dr Clubb mai ei obaith yw darparu arweiniad cryf ar y broses recriwtio. Dywedodd y byddai'n disgwyl i bobl wybod eu bod am weithio'n gryf iawn fel tîm a'u bod am sefyll ochr yn ochr â'i gilydd, a chytuno ar swyddi fel Comisiwn, ac yna cefnogi ei gilydd ar hynny.

18. Cyfeiriodd Dr Clubb hefyd at gyfleu gwaith y Comisiwn a materion cysylltiedig i'r cyhoedd. Dywedodd mai un o'r setiau sgiliau tebygol y bydd yn edrych amdani yn y comisiynwyr newydd fydd rhywun sydd â phrofiad o gyfleu cysyniadau heriol iawn i nifer fawr o bobl.

Cyllid ac adnoddau

19. Cydnabu Dr Clubb fod y Comisiwn yn un anghyffredin yn yr ystyr nad oes ganddo ysgrifenyddiaeth fawr na staff ymroddedig, nac yn wir gyllideb wedi'i neilltuo. Eglurodd y byddai ei ddull yn cynnwys gwneud cais prosiect fesul achos dros dair blynedd a fydd yn ei alluogi ef neu'r Comisiwn i gyflawni gwaith sydd o werth cryf i gymdeithas Cymru a gobeithio i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

20. Eglurodd Dr Clubb sut y gallai'r dull sy'n seiliedig ar brojectau weithio'n ymarferol:

"I will ask the best academic and private sector and public sector practitioners to join a project board. We'll have probably two of our commissioners sit on that board to be able to report back. And, over the course of the project, we would hope that that board would provide a huge amount of expert steer and support to whoever's carrying out the project work in order to ensure that all of the correct links are being made and all the right evidence is going in."

Annibynniaeth ar Lywodraeth Cymru

21. Yn 2019, mynegodd Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau bryderon ynghylch llinellau atebolrwydd a'r angen i sicrhau y gall Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru weithredu'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

22. Gofynnwyd i Dr Clubb a allai'r ffaith y bydd y Comisiwn yn parhau i gael ei gefnogi gan swyddogion Llywodraeth Cymru arwain at ganfyddiad o ddiffyg annibyniaeth. Pwysleisiodd Dr Clubb, er gwaethaf y trefniant staffio, y byddai'r Comisiwn yn annibynnol o ran proses feddwl y Comisiwn a'r hyn a awgrymir ar gyfer y cynllun gwaith dros dair blynedd. Aeth ymlaen i ddweud:

"Of course, if we are reliant on Government for what they are prepared to pay for, it's not completely independent in the conventional sense. But, as a

commission, I do feel that we need to be very robust, because we want to support the Government, but we also want to challenge them, and we need the kind of commission that can refuse to accept plans or statements from Government and also that can see where things are going really well."

Cylch gwaith y Comisiwn

23. Mewn ymateb i gwestiwn am ehangder cylch gwaith y Comisiwn, roedd Dr Clubb yn cydnabod ei fod yn eang, ond roedd yn teimlo y byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r Comisiwn ymateb i feysydd gwaith sydd o ddiddordeb arbennig ar amser penodol. Aeth ymlaen i ddweud yr hoffai newid un elfen o gylch gwaith y Comisiwn - y cyfnod amser o 5-30 mlynedd ar gyfer ffocws y Comisiwn. Eglurodd fel a ganlyn:

"The back end of 30 years for me is not particularly helpful when we're looking at climate change impacts that are likely to roll out in a significant way over the next 70, 80 or 100 years. So, I'm going to have a dialogue with the Minister, hopefully, about changing that back end."

Blaenoriaethau'r Comisiwn

24. Dywedodd Dr Clubb y gofynnwyd iddo gymryd golwg gychwynnol ar ynni adnewyddadwy ac y byddai'n annog sylwadau ar hynny gan y diwydiant. Dywedodd y byddai'n cynnig i'r Comisiwn y dylai ddatblygu dealltwriaeth o'r seilwaith presennol a'r hyn sy'n cael ei wneud ag ef.

25. Dywedodd Dr Clubb yr hoffai wedyn i'r Comisiwn ystyried heriau tymor hwy addasu i newid hinsawdd. Aeth ymlaen i ddweud pe bai'n dod i'r amlwg o ymgynghori â rhanddeiliaid bod rhai materion dybryd iawn o ran y seilwaith nad yw'r Comisiwn wedi'u hystyried yn faterion gwirioneddol frys, neu, o fewn yr amserlen 5-10 mlynedd, mae'r rhaglen waith honno ar gael ar hyn o bryd. Dywedodd ei fod yn disgwyl treulio llawer o'i amser dros y tri mis canlynol yn trafod materion o'r fath gyda rhanddeiliaid.

26. Ychwanegodd Dr Clubb y byddai angen i'r Comisiwn wneud rhwydweithiau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ac roedd wedi dechrau ar hyn. Dywedodd y byddai angen i'r Comisiwn ddeall sut y gall ddylanwadu ar fuddsoddiad seilwaith y DU yn dod i Gymru, sut y gellir adeiladu pontydd, yn drosiadol, rhwng Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU a Chymru, a chydag adrannau Llywodraeth y DU.

Ein barn ni

Roedd gennym ddi-ddordeb mewn clywed am weledigaeth y Cadeirydd ar gyfer y Comisiwn. Rydym yn croesawu ei fwriad i sicrhau bod aelodaeth y Comisiwn yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru a'i fwriad yw y bydd dim llai na 50 y cant o'r Comisiwn yn fenywod.

Nododd Dr Clubb sawl blaenoriaeth gynnar. Cydnabu'r cyfyngiadau adnoddau y bydd y Comisiwn yn ddarostyngedig iddynt ac mae wedi meddwl am ffyrdd o oresgyn hyn. Ymddengys fod ei ddull bwrdd prosiect a awgrymir yn ffordd synhwyrol o fynd i'r afael â'r her hon a bydd hefyd yn cynnwys amrywiaeth o leisiau arbenigol eraill yng ngwaith y Comisiwn.

Nodwn sicrwydd Dr Clubb ynghylch annibyniaeth y Comisiwn ar Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru wedi'i sefydlu mewn ffordd wahanol iawn i gyrff cyfatebol mewn gwledydd eraill. Byddwn yn parhau i adolygu hyn a'r mater cysylltiedig o gyllid ac adnoddau.

Ein bwriad yw gwahodd Cadeirydd y Comisiwn i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn flynyddol. Byddwn am archwilio'r materion hyn yn fwy manwl ac ystyried y cynnydd a wnaed pan fyddwn yn cynnal ein sesiwn graffu nesaf gyda Chadeirydd y Comisiwn.

Casgliad

Credwn fod yr ymgeisydd a ffeirir yn unigolyn addas a phriodol i gael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Seilwaith Cenedlaethol.

Atodiad A

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/LW/2768/21



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

SeneddClimate@senedd.wales

21 Medi 2021

Annwyl Llyr

Rwyf yn falch o roi gwybod ichi mai y Dr David Clubb rwyf wedi ei benodi fel Cadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW). Wedi derbyn adroddiad craffu boddhaol gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, bwriadaf benodi Dr Clubb am dair mlynedd.

Mae NICW wedi gweithredu gyda llai o gapasiti ers mis Mawrth 2020, er ei fod yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad ar Gyfathrebu Digidol yn ystod hydref 2020. Ers dod yn gyfrifol am NICW yn gynharach yr haf hwn rwyf wedi cyfarfod â chomisiynwyr ac wedi trafod sut i ail-ysgogi a ffocysu swyddogaeth NICW. Fy mhrif flaenoriaeth yw'r ymrwymiad i gyflawni ar draws yr agenda datgarboneiddio ac felly rwyf yn gofyn i NICW ganolbwyntio ar hyn, yn enwedig ar botensial technolegau adnewyddadwy. Rwy'n ymwybodol bod NICW wedi colli rhywfaint o fomentwm dros y flwyddyn ddiwethaf, a gallai ymgyrch recriwtio hir ar gyfer cadeirydd newydd waethygu yr ansicrwydd ynghylch diben NICW.

Gyda cylch gwaith a phwrpas wedi'i ailffocysu, pwyslais ar yr agenda datgarboneiddio ac ystyried canlyniadau ymgyrchoedd recriwtio blaenorol, penderfynais benodi Dr David Clubb yn uniongyrchol fel cadeirydd. Mae Dr Clubb yn dod â chyfoeth o arbenigedd o'r sector ynni adnewyddadwy ynghyd ag awydd i gyflawni ar asesu seilwaith Cymru yn y dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gennyf ddiddordeb ym marn y pwyllgor ar addasrwydd Dr Clubb ar gyfer y rôl a'i uchelgeisiau ar gyfer y Comisiwn.

Edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad eich gwrandawriad cyn penodi.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lee', is centered within a light gray rectangular box.

Lee Waters AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Atodiad B (Saesneg yn unig)

NICW Chair background note.

1. The NICW was established in 2018 as a non-statutory body to advise and make recommendations to Welsh Ministers on Wales' economic and environmental infrastructure needs over the next five to thirty years. Prior to setting up the NICW, the Welsh Government consulted on how the Commission should be set up and run. The Economy Infrastructure and Skills (EIS) Committee also held an inquiry into the setting up of the Commission.
2. An outline terms of reference¹ for the National Infrastructure Commission for Wales was agreed by Cabinet in March 2017 and was further updated to extend the NICW's remit to include aspects of social infrastructure in 2019.
3. Following a public appointments exercise and a pre-appointment hearing with the Economy, Infrastructure and Skills (EIS) Committee, the former Cabinet Secretary for Economy & Transport appointed John Lloyd Jones OBE as interim Chair of the NICW for 12 months. Mr Lloyd Jones' initial term ended on 21st June 2019. His term has been extended on two occasions, most recently in November 2020 when he was asked to remain in post until a new government was able to appoint a permanent Chair following the May 2021 Senedd elections.
4. A previous recruitment campaign to appoint a substantive chair, run in autumn 2019 identified a number of appointable candidates. However the former appointing Minister decided not to appoint to the role. Mr Lloyd Jones' term was subsequently extended until a substantive chair was appointed.
5. To date the NICW has produced two annual reports², the first setting out its priorities, and a report on Digital Communications Infrastructure in Wales. Due to the understandable constraints arising from the COVID-19 pandemic, the NICW has operated with reduced capacity during 2020 and 2021.
6. Responsibility for NICW came under the remit of the Deputy Minister for Climate Change in May 2021. The Deputy Minister met with NICW in June 2021 and taking into account the views of the current commission undertook to take action on refining the focus of NICW and move forward on appointments to the commission.
7. The prioritisation of Climate Change and decarbonisation requires a commission that can address matters such as Wales' long term energy infrastructure needs and therefore the Deputy Minister recommended Dr Clubb as a direct appointment to the role of chair.

¹ [Terms of reference: National Infrastructure Commission for Wales | GOV.WALES](#)

² [National Infrastructure Commission for Wales: annual report 2019 | GOV.WALES](#)
[National Infrastructure Commission for Wales: annual report 2020 | GOV.WALES](#)
[Digital communications infrastructure in Wales: report | GOV.WALES](#)

Atodiad C (Saesneg yn unig)

Dr David Clubb

Chair Designate, National Infrastructure Commission for Wales

Dr David Clubb is an expert in energy policy, public affairs and digital communication, having worked in the energy and environment sectors for nearly two decades. He is a Founding Partner at Afallen LLP, which supports organisations and businesses across Wales in delivery using Future Generations frameworks. He was previously Head of Digital at RenewableUK and Director at RenewableUK Cymru.

David is a Board Member and previous Chair of the Co-Pilot wind energy cooperative and a Member of the Welsh Government Diversity in STEM Board. He has also served on the Board of the Institute of Welsh Affairs and was a member of the Ministerial Strategic Energy Group for Welsh Government. David is a fluent Welsh speaker. He lives in Cardiff.